

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro**

Clinig Deintyddol Tŷ Hickman

18 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	18
6.	Y Camau Nesaf.....	20
	Atodiad A.....	21

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Deintyddol Tŷ Hickman, 25 Heol Hickman, Penarth, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 18 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹Daeth Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny trwy lythyr gofyn am sicrwydd ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A o'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Clinig Deintyddol Tŷ Hickman yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Penarth ym Mro Morgannwg. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae'r tîm o staff yn cynnwys wyth deintydd, un hylenydd deintyddol, chwe nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, a dau dderbynnydd. Rheolir y practis gan reolwr practis, a oedd yn arfer bod yn nyrs ddeintyddol yn y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol gan gynnwys orthodonteg a mewnlaniadau. Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

Gan fod Clinig Deintyddol Tŷ Hickman yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau i'r GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, hefyd yn ddarostyngedig i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (Diwygio) Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011.

4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Clinig Deintyddol Tŷ Hickman yn bodloni'r safonau gofal a geir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan Clinig Deintyddol Tŷ Hickman, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o'r holiaduron cleifion a sylwadau ar y diwrnod ynglŷn â phob maes gofal yn gadarnhaol.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddatblygu dull o wybod barn cleifion, a chasglu adborth ganddynt, er mwyn asesu'n rheolaidd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwnaethom argymhellion er mwyn gwella gweithdrefnau dadheintio ac agweddau ar gofnodion cleifion.

Ar adeg yr arolygiad, y ddau brif ddeintydd a oedd yn berchen ar y practis. Roedd y prif ddeintyddion yn cael eu cynorthwyo wrth reoli'r practis o ddydd i ddydd gan reolwr y practis, a oedd hefyd yn nyrs ddeintyddol.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu'n dda o fewn y tîm, a gwelsom staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm.

Dylai'r practis ddiweddarau'r weithdrefn bryderon (cwynion) er mwyn iddi adlewyrchu trefniadau Gweithio i Wella.

Roedd y practis deintyddol wedi ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg – y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt gael eu gweld gan eu deintydd.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan Glinig Deintyddol Tŷ Hickman, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o'r holiaduron cleifion a sylwadau ar y diwrnod ynglŷn â phob maes gofal yn gadarnhaol.

Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddatblygu dull o wybod barn cleifion, a chasglu adborth ganddynt, er mwyn asesu'n rheolaidd ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Yn ogystal, gwnaethom siarad â thri chlaf a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad. Dychwelwyd ugain holiadur. Roedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron, ac a siaradodd â ni, wedi bod yn defnyddio'r practis deintyddol ers rhwng un flwyddyn a 50 mlynedd.

Roedd yr holl adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn, ac yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu gan y staff. Gwelsom staff yn trin cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

'Deintydd da iawn. Mae pawb yn gyfeillgar ac yn helpus. Allwn i ddim gofyn am ddeintydd gwell.'

'Dw i bob amser yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a'r driniaeth.'

'Practis hyfryd. Staff croesawgar iawn. Deintydd gwybodus iawn.'

'Mae'r tîm yn rhoi gwasanaeth eithriadol o dda. Dw i'n gweithio allan o'r wlad yn aml, ond dw i bob amser yn gwneud yn siŵr mod i'n dod yn ôl i Dŷ Hickman ar gyfer gwiriadau, gan fod y gwasanaeth mor eithriadol o dda, a dw i bob amser yn cael croeso mawr gan y tîm o staff.'

Cyn dod i Dŷ Hickman doeddwn i ddim yn mwynhau dod at y deintydd. Roeddwn wedi cael profiadau gwael rhywle arall.

*Ond ers imi ddod yma, dw i wedi bod yn dawel fy meddwl.
Tîm cyfeillgar a phroffesiynol iawn'*

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Roedd hyn golygu y gallai cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym pe baent yn teimlo poen deintyddol. Roedd cleifion yn cael eu hatgoffa am eu hapwyntiadau trwy wasanaeth negeseuon testun.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oediadau sylweddol wrth aros i weld y deintydd. Dywedodd staff fod proses ar waith i hysbysu cleifion pe bai eu deintydd yn rhedeg yn hwyr, er mwyn i gleifion cael gwybod cyn gynted â phosibl pe bai unrhyw oedi.

Roedd pob claf yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, ac yng ngeiriau dau ohonynt '*le, mae ffordd y deintydd o weithio yn glir iawn'* a '*le, dw i bob amser yn derbyn digon o wybodaeth ac yn teimlo'n hyderus cyn dechrau'*.

Roedd gwybodaeth ynglŷn â'r practis ar gael ar gyfer cleifion mewn ffolder a oedd ym mhob man aros. Roedd y wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y practis. Gwnaethom nodi nad oedd cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar y wefan, na dolen gyswllt at wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hysbysebu. Gwelsom fod rhai o'r manylion ar y wefan, fel rhifau cofrestru staff gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, naill ai ar goll neu'n anghywir.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai'r practis sicrhau bod yr wybodaeth ar ei wefan yn gywir ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hysbysebu.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn y ffenest ac arno'r rhif cyswllt brys, ond roedd yn fach ac ni ellid ei weld yn hawdd. Gwelsom fod y rhif ffôn brys wedi'i gynnwys yn nhaflen wybodaeth cleifion y practis ac ar wefan y practis, a gwnaethom wirio bod y rhif ar beiriant ateb y practis.

Dywedodd perchennog y practis a rheolwr y practis nad oedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer asesu barn cleifion. Fodd bynnag, gwnaethant gadarnhau y byddent bob amser yn fodlon siarad â chleifion ynglŷn â'u barn ar y practis. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth y cleifion yn rheolaidd, er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth y cleifion yn rheolaidd, er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a sicrhau eu bod yn bodloni anghenion ei gleifion.

Pan wnaethom ofyn ynglŷn â chwyno, dywedodd cleifion wrthym naill ai eu bod yn gwybod sut i gwyno neu nad oedd ganddynt reswm i gwyno – ac roeddynt yn fodlon mynd at staff gydag unrhyw bryderon. Gwelsom fod poster ar gwyno wedi'i arddangos ar bwys y dderbynfa ar y llawr daear, a hefyd yn y man aros i fyny'r grisiau. Roedd hyn wedi'i ysgrifennu mewn ffont eithaf bach, felly, gwnaethom argymhell y dylai'r practis ystyried sut y gallai sicrhau bod gwybodaeth fel y poster ar gwyno'n fwy hygyrch ar gyfer ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, maint ffont/testun mwy, a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol. Gwnaethom rai argymhellion er mwyn gwella'r gweithdrefnau dadheintio ac er mwyn gwella cysondeb cofnodion cleifion.

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Gwnaethom nodi bod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus.

Roedd offer diogelu personol fel menig untro ac offer diogelu llygaid ar gael i staff eu defnyddio er mwyn helpu i atal croes heintio. Roedd sinciau golchi dwylo penodedig ar gael hefyd er mwyn helpu i reoli heintiau.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd system ar waith ar gyfer gwirio'r stoc o ddeunyddiau fel anesthetig lleol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth. Gwelsom rai deunyddiau roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddyfeisio system ar gyfer gwirio a newid deunyddiau mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai'r practis wneud trefniadau addas i adolygu'r system o wirio'r deunyddiau a gedwir ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth. Dylid gwneud newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau bod deunyddiau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben yn cael eu nodi, ac y rhoddir rhai newydd yn eu lle cyn y dyddiad hwnnw.

Dadheintio

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan y practis ystafell benodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd y practis yn glanhau offerynnau â llaw, ac ag awtoclaf (sterileiddiwr) ym mhob un o'r pum ystafell driniaeth. Lle mae practisau'n defnyddio'r un ystafell ar gyfer trin cleifion a dadheintio, argymhellir y dylent ddatblygu cynllun ar gyfer ystafell neu fan penodedig ar gyfer dadheintio. Gwelsom gynlluniau datblygedig ar gyfer gwaith adeiladu yng Nghlinig Deintyddol Tŷ Hickman, a fydd yn dechrau yn y misoedd nesaf. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys adeiladu ystafell ddadheintio benodedig.

Gwnaethom edrych ar y prosesau dadheintio yn un o'r ystafelloedd triniaeth, a dywedwyd wrthym fod pob un o'r ystafelloedd triniaeth eraill yn dilyn yr un weithdrefn. Roedd un sinc ar gyfer dadheintio ym mhob ystafell driniaeth, ac nid oedd powlen yn cael ei defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod yr offerynnau yn cael eu glanhau a'u rinsio yn y sinc cyn iddynt gael eu sterileiddio. Gwnaethom argymhell y dylid defnyddio powlen ar wahân ar gyfer rinsio offerynnau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05² (WHTM01-05).

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai'r practis sicrhau y rhoddir powlenni ym mhob ystafell driniaeth ar gyfer glanhau a rinsio offerynnau deintyddol â llaw.

Ar ôl sterileiddio offerynnau deintyddol, dylid eu rhoi mewn bag wedi'i selio, a dylid cofnodi'r dyddiad dadheintio yn ogystal â'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel ar y bag. Mewn rhai o'r ystafelloedd triniaeth, gwelsom fod y dyddiad ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel wedi'i ysgrifennu ar offerynnau wedi'i bagio, ac mewn ystafelloedd triniaeth eraill dim ond y dyddiad dadheintio a nodwyd. Rhoddwyd sicrwydd inni fod pob offeryn yn y practis yn cael ei ddefnyddio o fewn mis i'w sterileiddio fel mater o drefn. Fodd bynnag, er mwyn cysondeb a diogelwch ar draws pob ystafell driniaeth, dylid cynnwys y ddau ddyddiad. Gwelsom hefyd rai offerynnau mewn bagiau nad oeddent wedi'u selio, ac offerynnau eraill nad oeddent wedi'u bagio.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Dylai'r practis sicrhau bod offerynnau'n cael eu storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Dylid selio pob bag Dylai pob offeryn wedi'i storio gael ei nodi â'r dyddiad y cafodd ei brosesu a'i lapio.

Roedd llyfrau cofnodion wedi'u cynnal ar gyfer gwirio'r offer, ac roedd yr offer a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Cael gwared ar wastraff

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddioli i

²Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

fagiau/cynhwysyddion o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r dull cywir o waredu arno. Roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel tra eu bod yn aros i rywun eu casglu. Roedd deunyddiau a allai fod yn beryglus fel silindrau nwy a chemegau wedi'u storio'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod dannedd a dynnwyd yn cael eu rhoi yn y gwastraff clinigol. Gwnaethom atgoffa'r practis am yr angen i sicrhau y rhoddir pob dant a dynnwyd ac ynddo amalgam yn y didolwr amalgam,³ ac y rhoddir pob dant arall a dynnwyd yn y bin offer miniog melyn er mwyn diogelwch.

Offer radiograffig

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phrofi ar gael. Fodd bynnag, er inni weld bod pob deintydd wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, nid oedd pob aelod o staff nyrsio wedi mynychu'r hyfforddiant hwn. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ yn gofyn i bob person cofrestredig fynychu'r hyfforddiant hwn unwaith bob pum mlynedd fel rhan o'i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 hefyd yn gofyn am addysg barhaus.

Y Gwelliant sydd ei angen

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff priodol wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a bod hwn yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd.

Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai un o'r cleifion yn cael argyfwng (llewygu) yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan staff y sgiliau angenrheidiol a mynediad at offer achub

³Dyfais sy'n tynnu gronynnau o amalgam mercwri (sydd mewn rhai llenwadau deintyddol) o ddŵr gwastraff cyn iddo fynd i'r system garthffosiaeth.

⁴ Cyngor Deintyddol Cyffredinol - [://www.gdc-uk.org](http://www.gdc-uk.org)

bywyd a chyffuriau i'w galluogi i weithredu ar unwaith pe bai un o'r cleifion yn llewygu.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion 22 o gleifion, gan gynnwys cofnodion gan bob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn foddhaol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gofnodion a welsom yn cyfeirio at sgrinio ar gyfer canser y geg. Gwnaeth trafodaeth â pherchen y practis gadarnhau bod pob deintydd yn sgrinio ar gyfer canser y geg, er nad oedd hyn wedi'i gofnodi yn y nodiadau a welsom ni. Gwnaethom nodi hefyd, yn y rhan fwyaf o'r cofnodion a welsom nad oedd hanes cymdeithasol cleifion (gan gynnwys cymeriant alcohol ac a oedd y claf yn ysmegu) wedi'i gwblhau. Roedd hyn yn golygu y gellir colli cyfleoedd ar gyfer rhoi cyngor priodol – er enghraifft ar roi'r gorau i ysmegu. Gwelsom y gellid gwella cofnodion clinigol ymhellach trwy gynnwys y rheswm am apwyntiad y claf; profiad deintyddol yn y gorffennol a diagnosis o'r dannedd a fydd yn derbyn sylw.

Gwelsom fod cleifion yn cael sganiau pelydrau-X o fewn cyfnodau priodol o amser, a bod ansawdd y sganiau pelydrau-X fel arfer yn cael ei fonitro. Fodd bynnag, weithiau nid oedd tystiolaeth o'r cyfiawnhad dros y sgan pelydr-X, ac nid oedd gwerthusiad clinigol o'r sgan pelydr-X wedi'i gofnodi yn nodiadau'r claf.

Gwelsom enghreifftiau o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig, a gwelsom un claf yn derbyn cynllun triniaeth i'w lofnodi yn sgil ymgynghori â'r deintydd. Roedd cynlluniau deintyddol wedi'u hargraffu ar gyfer cleifion yn dangos yr holl driniaeth yr oedd ei hangen, ond nid oedd yn dangos trefn y driniaeth, na phryd yr oedd yn rhaid i'r claf ddod yn ôl ar gyfer archwiliad deintyddol, neu i weld yr hylenydd. Gwnaethom argymhell y dylai'r deintyddion yn y practis gofnodi'r cynllun triniaeth mewn trefn resymegol sy'n mynd i'r afael â phroblem ddeintyddol y claf. Dylid nodi hefyd cynllun triniaeth amgen ac opsiynau, ynghyd â'r rhesymau pam mae'r driniaeth wedi cael ei ddewis neu ei gwrthod.

Gwnaethom hefyd edrych ar sut mae cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi, a phan oedd cleifion yn derbyn anaestetig lleol, roedd eu cydsyniad clir yn cael ei gofnodi'n gywir. Fodd bynnag, ni welsom gofnod o gydsyniad ar gyfer archwiliadau na thriniaeth benodol, felly, gwnaethom argymhell y dylai'r deintyddion yn y practis gofnodi cydsyniad parhaus cleifion ar gyfer triniaeth.

Gwnaethom edrych ar ba mor aml roedd y practis yn gofyn i gleifion ddod yn ôl ar gyfer archwiliadau, a gweld bod hyn yn addas – er nad oedd yn cael ei ddogfennu bob amser.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Mae'n rhaid i ddeintyddion y practis sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi mewn nodiadau unigol cleifion.

- ***Sgrinio ar gyfer canser y geg***
- ***Hanes cymdeithasol gan gynnwys ysmegu a chymeriant alcohol***
- ***Y rheswm dros yr apwyntiad***
- ***Profiad deintyddol y claf yn y gorffennol***
- ***Y diagnosis sy'n sail i'r driniaeth***
- ***Cyfiawnhad dros sganiau pelydr-X a gwerthusiad clinigol ohonynt***
- ***Yr opsiynau triniaeth a drafodwyd***
- ***Cydsyniad y claf***
- ***Galwadau i ddod yn ôl***

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Ar adeg yr arolygiad, y ddau brif ddeintydd a oedd yn berchen ar y practis. Roedd y prif ddeintyddion yn cael eu cynorthwyo wrth reoli'r practis o ddydd i ddydd gan reolwr y practis, a oedd hefyd yn nyrs ddeintyddol.

Roedd gan y practis nifer o bolisiau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith, â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu'n dda o fewn y tîm a gwelsom staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm.

Dylai'r practis ddiweddarau'r weithdrefn bryderon (cwynion) er mwyn iddi adlewyrchu trefniadau Gweithio i Wella.

Y ddau brif ddeintydd a oedd yn berchen ar y practis, wedi'u cynorthwyo gan reolwr y practis. Gwelsom fod tîm staff sefydledig, ac roedd rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis ers blynnyddoedd lawer. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan staff cyfarwydd. Ar sail ein cyfweiliadau â staff a'n harsylwadau, daethom i'r casgliad bod staff yn gweithio'n effeithlon gyda'i gilydd fel tîm.

Dywedwyd wrthym fod y flwyddyn cyn yr arolygiad wedi bod yn un anodd ar gyfer y practis, gan fod digwyddiadau arwyddocaol wedi golygu bod dau berchennog y practis wedi bod yn absennol am gyfnodau estynedig. Dywedwyd wrthym gan staff a chleifion fel ei gilydd fod y cyfnod hwn wedi cael ei reoli'n dda iawn ac nad effeithiwyd ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu.

Dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn cael arfarniad tuag unwaith y flwyddyn, a gwelsom dystiolaeth o hyn. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Nid oedd deintyddion yn cael arfarniadau ffurfiol, er y dywedwyd wrthym fod trafodaethau ad hoc am unrhyw faterion clinigol yn cael eu cynnal am unrhyw faterion clinigol. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis gynnal cyfarfod rheolaidd er mwyn i glinigwyr drafod unrhyw welliannau sydd eu hangen – er enghraifft, mewn perthynas â chadw cofnodion. Yna, gellir gweithredu, monitro ac ailasesu adborth adeiladol a gwelliannau yn rheolaidd.

Hefyd, dywedodd staff wrthym am gyfarfodydd staff a oedd yn cael eu cynnal ar yr un adeg bob mis. Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd diwethaf, a oedd yn cadarnhau bod testunau perthnasol sy'n ymwneud â datblygiad y practis, y staff a gofal cleifion yn cael eu trafod.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel.

Gwelsom gadarnhad bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi mynychu hyfforddiant yn y cofnodion staff a welsom. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff â'r sgiliau perthnasol ac a oedd wedi diweddarau eu hyfforddiant. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth mewn ffeiliau staff a oedd wedi ymuno â'r practis yn ddiweddar, bod rhaglenni ymsefydlu ac ymgyfarwyddo ffurfiol yn cael eu cynnal, er mwyn galluogi gweithwyr newydd i ddod i arfer â'r amgylchedd gwaith. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan staff sy'n hyderus ac yn gyfarwydd â'u gweithle.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff wedi gwneud hyfforddiant ar ddiogelu plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn ddiweddar.

Yn unol â'r rheoliadau⁵ perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd yr holl ddeintyddion a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Roedd angen diweddarau rhai manylion, a gwnaed trefniadau ar gyfer hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom gofnodion imiwnedd rhag hepatitis B ar gyfer staff clinigol. Roedd y cofnodion ar gyfer un aelod o staff yn dangos lefel isel o imiwnedd rhag hepatitis B, er ei fod wedi cael brechiad. Dywedwyd wrthym fod yr aelod hwn o staff wedi derbyn cyngor, ac yn gwybod yr hyn roedd yn rhaid ei wneud o ystyried ei imiwnedd isel. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gofnodi yn y practis. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis geisio cyngor gan y gwasanaeth iechyd galwedigaethol ynglŷn ag unrhyw weithdrefnau penodol y dylid eu dilyn, er mwyn sicrhau bod yr aelod hwn o staff yn cael ei amddiffyn yn ddigonol rhag firsau'r gwaed a bod hyn yn cael ei gofnodi.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiad a'r rheoliadau a'r safonau. Gwnaethom hefyd edrych ar sampl o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw. Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal, er mwyn sicrhau bod

⁵Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009.

dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Felly, gallai staff a chleifion fod yn hyderus bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod offer yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac yn cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Gwelsom fod un darn o ddogfennaeth ar goll yn un o'r ystafelloedd triniaeth, ac rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â hyn.

Y Gwelliant sydd ei Angen

Mae angen cynllun archwilio ysgrifenedig ar gyfer y cywasgydd yn ystafell driniaeth 5

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion leisio pryderon (cwynion), boed y rheini'n gleifion preifat neu'n gleifion y GIG. Gwelsom fod angen gwneud diwygiadau bach i'r amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion, er mwyn sicrhau bod y polisi'n llawn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol ar gyfer lleisio pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel Gweithio i Wella). Dylai'r polisi hefyd gynnwys manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned lleol.

Y Gwelliant sydd ei angen

Dylid diwygio gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis er mwyn iddi lawn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella'.

Roedd gan y practis system addas ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd cwynion llafar na chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gofnodi'r cwynion hyn, a chadw cofnod o bob cwyn er mwyn dysgu o unrhyw themâu neu dueddiadau a nodwyd.

Y Gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis lunio system i gofnodi cwynion llafar a chwynion anffurfiol

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat⁶. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a gytunodd i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r

⁶Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddiaeth breifat.

rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis dderbyn archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n eu cyflogi yn cynnal gwiriadau i sicrhau addasrwydd y cyflogeion ar gyfer gweithio. Gwnaethom drafod y ddarpariaeth ar gyfer gwiriadau staff â rheolwr y practis, a gweld tystiolaeth bod y gwiriadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer staff newydd.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd y practis deintyddol wedi ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg – y tu mewn a'r tu allan. Roedd yr adeilad yn darparu amgylchedd cyfforddus ar gyfer cleifion wrth iddynt gael eu gweld gan eu deintydd.

Mae Clinig Deintyddol Tŷ Hickman yn agos i ganol y dre ym Mhenarth. Nid oes lleoedd parcio penodedig ar gael, er y dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu parcio ar y ffordd y tu allan, os ydynt yn rhan o'r cynllun bathodyn glas sy'n helpu pobl sydd ag anabledd i barcio yn agosach at eu cyrchfan.

Roedd arwyddion clir o flaen y safle a oedd yn nodi amseroedd agor y practis, ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a oedd yn gweithio yno.

Ar hyn o bryd nid yw'r practis yn hollol hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Dywedwyd wrthym fod gan y practis ramp cludadwy roeddent yn ei ddefnyddio er mwyn rhoi cymorth i gleifion sy'n defnyddio cadair olwyn. Fodd bynnag, gwelsom gynlluniau manwl ar gyfer ailwampio adeilad y practis, a oedd yn gynnwys gwneud y practis yn hollol hygyrch. Dywedwyd wrthym y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Roedd gan y practis brif fynedfa a man aros ar y llawr daear, a man aros llai ar y llawr cyntaf. Roedd pum ystafell driniaeth ar ddau lawr. Roedd clinig laser ar ail lawr yr adeilad nad oedd yn rhan o'r arolygiad hwn. Cadarnhaodd arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad bod maint y manau aros yn briodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Mae diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol, ac roeddent wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd y manau aros, yr ystafelloedd triniaeth a'r derbynfeydd yn lân ac yn daclus ac ynddynt ddigon o olau ac aer ffres.

Gwelsom mai prin oedd y wybodaeth hyrwyddo iechyd a oedd ar gael i gleifion yn yr ystafelloedd aros, fel ymwybyddiaeth o ganser y geg a rhoi'r gorau i smygu.

Y Gwelliant sydd ei angen

Dylai'r practis ystyried darparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu a gwybodaeth am ganser y geg a sut i'w atal.

Roedd gan y practis doiled staff neillryw bach ar y llawr daear, a thoiled neillryw i gleifion ar y llawr cyntaf. Nid oedd y tai bach hyn yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd y cyfleusterau'n ymddangos yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn atal croes-heintio. Gwelsom fod y cynlluniau ailwampio ar gyfer y dyfodol yn cynnwys darparu toiled hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith i rwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Dywedodd staff wrthym fod copiâu wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu cadw oddi ar y safle bob dydd. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw o dan glo mewn garej. Mae hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch a gwarchodaeth cleifion a'u gwybodaeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghlinig Deintyddol Tŷ Hickman yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Clinig Deintyddol Tŷ Hickman

Dyddiad yr Arolygiad: 18 Chwefror 2015

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
7	Dylai'r practis sicrhau bod yr wybodaeth ar ei wefan yn gywir ac yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu.	Mae'r wefan wedi cael ei diweddarau â rhif cywir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Rydym wedi darllen canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac mae'r ddolen gyswllt at wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bellach ar y wefan. Bydd staff newydd yn ymuno â'r team ym mis Mehefin 2015, felly, fe drefnir ffotograffau o bob aelod o staff yn fuan wedyn, ac fe'u rhoddir ar y wefan.	Kirsty White	Cwblhawyd i gyd
7	Dylai'r practis ddatblygu dull o gasglu barn ac adborth cleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion ei gleifion (Safon 5a-c	Mae ffurflenni adborth wedi cael eu datblygu a byddant yn cael eu dosbarthu ar adegau gwahanol yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhain yn cael eu hasesu a rhoddir yr adborth ar y wefan ac yn y ffolderi yn y derbynfeydd er mwyn i gleifion	Kirsty White a Charlotte Lloyd	Gwneir hyn yn rheolaidd

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru; Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon 2.1)	eu darllen		
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
9	Dylai'r practis wneud trefniadau addas i adolygu'r system o wirio'r deunyddiau a gedwir ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth. Dylid gwneud newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau bod deunyddiau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben yn cael eu nodi, ac y rhoddir rhai newydd yn eu lle cyn y dyddiad hwnnw.	Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn y diwrnod ar ôl yr arolygiad. Cafwyd gwared ar y cwpl o eitemau roedd eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio ar unwaith. Mae'r practis wedi datblygu rhestr wirio ar gyfer pob ystafell driniaeth y bydd nyrsys yn ei gwirio'n fisol.	Pob aelod o staff	Cwblhawyd i gyd ac yn cael eu hailasesu'n fisol
10	Dylai'r practis sicrhau y rhoddir powlenni ym mhob ystafell driniaeth ar gyfer glanhau a rinsio offerynnau deintyddol â llaw. (Canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 16.1)	Prynwyd y rhain y diwrnod ar ôl yr arolygiad ac maent bellach yn cael eu defnyddio.	Kirsty White	Cwblhawyd i gyd
10	Dylai'r practis sicrhau bod offerynnau'n cael	Trafodwyd y mater hwn yn y cyfarfod practis ar ôl yr arolygiad. Mae pob nyrs yn sicrhau bod y	Kirsty White	Cwblhawyd i gyd

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	eu storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o halogiad. Dylid selio pob bag. Dylai pob offeryn wedi'i storio cael ei nodi â'r dyddiad y cafodd ei brosesu a'i lapio. (Canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraff 2.4k)	bagiau'n cael eu selio'n gywir. Yn ystod yr arolygiad, tynnwyd ein sylw at y ffaith bod rhai nyrsys yn rhoi dyddiad y prosesu ar y bagiau, a rhai yn rhoi'r dyddiad ar gyfer ailbrosesu arnynt. Bellach mae pob nyrs yn eu stampio â'r dyddiad prosesu yn hytrach na'r dyddiad ar gyfer ailbrosesu.		
11	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff priodol wedi derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a bod hwn yn cael ei ddiweddarau bob pum mlynedd. (Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – safonau 16e a 26d)	Trefnir cwrs ar gyfer pob nyrs ddeintyddol cyn gynted ag y bo modd – fodd bynnag, ni fydd y cwrs nesaf yng Nghymru – gydag Adran Ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd – yn cael ei gynnal tan fis Ionawr 2016.	Charlotte Lloyd	Ionawr 2016
12	Mae'n rhaid i ddeintyddion y practis sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi mewn nodiadau unigol cleifion: <ul style="list-style-type: none"> • Sgrinio ar gyfer canser y geg 	Rydym wedi cael cyfarfod gyda phob deintydd ac rydym wrthi'n datblygu nodiadau cyfunedig manwl a fydd yn trafod yr holl bwyntiau a restrir.	Kirsty White a Charlotte Lloyd	Yn barhaus

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<ul style="list-style-type: none"> • Hanes cymdeithasol gan gynnwys ysmegu a chymeriant alcohol • Rheswm dros yr apwyntiad • Profiad hanesyddol y claf • Y diagnosis sy'n sail i'r driniaeth • Cyfiawnhad dros sganiau pelydr-X a gwerthusiad clinigol ohonynt • Yr opsiynau triniaeth a drafodwyd • Cydsyniad y claf • Galwadau i ddod yn ôl <p>(Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon 4; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – safon 20c)</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
16	Mae angen cynllun archwilio ysgrifenedig ar	Roedd hyn ar gael ac wedi ei ddangos ar y dydd,	Kirsty White	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gyfer y cywasgydd yn ystafell driniaeth 5 (Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru; Rheoliadau Systemau Cywasgu a Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989 a Rheoliadau Diogelwch Systemau Cywasgu 2000)	ond mae mewn fformat gwahanol i'r holl gynlluniau archwilio ysgrifenedig ar gyfer y cywasgyddion eraill		
16	Dylid diwygio gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis er mwyn iddi lawn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella'. (Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon 5.1.3; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – safon 20c)	Mae'r weithdrefn gwyno wedi cael ei diwygio a'i diweddarau.	Kirsty White	Cwblhawyd
16	Dylai'r practis dyfeisio system ar gyfer cofnodi cwynion llafar a chwynion anffurfiol (y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon 5.1.6)	Mae bellach gennym lyfr cofnodi ar gyfer cwynion llafar yn y dderbynfa. Mae unrhyw gwynion llafar yn cael eu trafod ac yn derbyn sylw yn ein cyfarfodydd staff misol	Kirsty White	Cwblhawyd
Ansawdd yr Amgylchedd				
17	Dylai'r practis ystyried darparu rhagor o	Rydym wedi ystyried arddangos rhagor o bosteri a deunyddiau hyrwyddo iechyd o gwmpas y	Kirsty White	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu a gwybodaeth am ganser y geg a sut i'w atal. (Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – Safonau 3b a c)	practis		

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio):KIRSTY WHITE.....

Teitl:RHEOLWR Y PRACTIS.....

Llofnod:KRWHITE.....

Dyddiad:27/03/2015.....